**Ymgorffori Hawliau Dynol yng Nghymru**

**Cwestiynau Cyffredin**

Yn 2021 roedd adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru yn argymell gwneud hawliau dynol rhyngwladol yn rhan o gyfraith Cymru. Arweiniodd hyn at weld Llywodraeth Cymru yn sefydlu gweithgor er mwyn archwilio sut y gellid cyflawni hyn drwy broses a elwir yn **'ymgorffori'**.

- Gallwch ddarllen adroddiad 2021 yn llawn neu grynodeb ohono yma: Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru | LLYW.CYMRU

Mae'r ddogfen friffio hon yn ateb rhai **Cwestiynau Cyffredin** ynghylch ymgorffori.

Os hoffech wybod mwy, gallwch ddilyn y dolenni isod i ddeunydd darllen ychwanegol.

## 1. Beth ydym yn ei olygu wrth 'ymgorffori' hawliau dynol?

Yn syml, mae ymgorffori yn golygu amddiffyn hawliau dynol yn y gyfraith.

Yn y Deyrnas Unedig, byddai hyn yn golygu gwneud hawliau dynol yn rhan o gyfraith y Deyrnas Unedig. Yng Nghymru byddai'n golygu gwneud hawliau dynol yn rhan o gyfraith Cymru.

- Gweler cwestiwn 4 isod am ragor o wybodaeth am ymgorffori.

## 2. Pa hawliau dynol rydym yn cyfeirio atynt?

Wrth siarad am ymgorffori yn y DU neu yng Nghymru, rydym yn cyfeirio at hawliau dynol a ysgrifennwyd yng nghytuniadau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig. Mae'r rhain yn bwysig oherwydd bod y DU wedi cytuno'n wirfoddol i lawer o gytuniadau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig, ac felly dylid gwarantu'r hawliau sydd wedi'u cynnwys ynddynt i bawb yn y DU, gan gynnwys yng Nghymru.

- Gweler rhestr o gytuniadau hawliau dynol y cytunwyd arnynt gan y Deyrnas Unedig: Rhyngwladol | Comisiwn Hawliau Dynol Yr Alban (Saesneg yn unig)

## 3. A allwch chi egluro ychydig mwy am yr hawliau dynol hynny rydych yn dweud y dylid eu gwarantu i bawb yn y DU ac yng Nghymru?

Mae ein hawliau dynol yn cynnwys 'hawliau sifil a gwleidyddol'. Hawliau yw'r rhain sy'n amddiffyn mathau pwysig o ryddid fel preifatrwydd, achosion llys teg, rhyddid

i lefaru a'r hawl i brotestio. Mae hawliau sifil a gwleidyddol eisoes wedi'u diogelu ym mhobman yn y DU gan ***Ddeddf Hawliau Dynol 1998***, felly nid oes angen i ni ddiogelu'r hawliau hyn yng nghyfraith Cymru.

- Mwy am ***Ddeddf Hawliau Dynol 1998***: Y Ddeddf Hawliau Dynol | EHRC

Mae ein hawliau dynol yn cynnwys 'hawliau economaidd-gymdeithasol' hefyd. Mae'r rhain yn 'hawliau bob dydd' sy'n cyfeirio at nwyddau a gwasanaethau sylfaenol sydd eu hangen arnom i gyd i fyw bywyd urddasol. Er enghraifft: bwyd digonol, tai o safon weddus, iechyd a gofal cymdeithasol priodol, ac addysg briodol. Nid yw hawliau economaidd-gymdeithasol yn cael eu diogelu gan gyfraith y DU, felly mae'n bwysig ein bod yn eu diogelu yng nghyfraith Cymru.

Mae cytuniadau'r Cenhedloedd Unedig sy'n gwarantu hawliau economaidd-gymdeithasol yn cynnwys:

- Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol.
- Y Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau.
- Y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn.
- Y Confensiwn ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod.

- Gallwch ddarllen y cytuniadau hyn yma: Rhyngwladol | Comisiwn Hawliau Dynol Yr Alban (Saesneg yn unig)
- I ddarllen mwy am ein hawliau bob dydd: Tudalen adnoddau sgwrs am hawliau bob dydd | Just Fair (Saesneg yn unig)

**4. Rydych chi eisoes wedi disgrifio ymgorffori mewn termau syml (cwestiwn 1). Allwch chi ddweud ychydig mwy am ymgorffori, gan ganolbwyntio ar Gymru?**

Er bod ymgorffori yn golygu gwneud hawliau dynol yn rhan o gyfraith y DU neu gyfraith Cymru, mae yna wahanol ffyrdd o gyflawni hyn.

Y tri dull mwyaf cyffredin yw:

***Ymgorffori uniongyrchol*** (cyfeirir ato weithiau fel 'ymgorffori llawn ac uniongyrchol'): yng Nghymru byddai hyn yn golygu defnyddio cyfraith Cymru i wneud hawliau economaidd-gymdeithasol yn rhwymol ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru.

Ymgorffori uniongyrchol yw'r math cryfaf o ymgorffori gan y gall unigolion ofyn i lys ddarparu rhwymedi os yw Llywodraeth Cymru neu awdurdod cyhoeddus yn methu â gweithredu yn unol â hawliau economaidd-gymdeithasol.

Yr unig enghreifftiau o ymgorffori uniongyrchol yn y Deyrnas Unedig yw:

- ***Deddf Hawliau Dynol 1998***, sy'n ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn y system gyfreithiol ledled y DU.

- ***UN Convention on the Rights of the Child (Incorporation)(Scotland) Act 2024*** sy'n ymgorffori'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn yng nghyfraith yr Alban (nid cyfraith y DU neu gyfraith Cymru).

***Ymgorffori anuniongyrchol***: byddai hyn yn golygu defnyddio cyfraith Cymru i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus ystyried hawliau economaidd-gymdeithasol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, ni fyddent yn rhwymol, felly ni fyddai llysoedd yn gallu darparu rhwymedi mewn achosion lle mae Llywodraeth Cymru neu awdurdod cyhoeddus yn methu â gweithredu yn unol â hawliau economaidd-gymdeithasol.

Enghraifft o ymgorffori anuniongyrchol yng Nghymru yw:

- ***Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011***. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi 'sylw dyladwy' i hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.

***Ymgorffori sectorol:*** sef fersiwn o ymgorffori anuniongyrchol ond wedi'i gyfyngu i feysydd polisi (h.y. sectorau) penodol, er enghraifft, addysg neu ofal cymdeithasol.

Dyma enghreifftiau o ymgorffori sectorol yng Nghymru:

- ***Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014***, sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y ddeddf roi 'sylw dyladwy' i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn.
- ***Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2019*** sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff perthnasol sy'n arfer swyddogaethau o dan awdurdodau'r ddeddf roi sylw dyladwy i hawliau plant a hawliau pobl anabl.

  - ➢ Gallwch ddarllen mwy am y gwahanol ffyrdd o gyflawni'r broses o ymgorffori yng Nghymru yma: Briff Sefydliad Bevan ar ymgorffori (Saesneg yn unig)
  - ➢ Gallwch ddarllen am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yma: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) - UNICEF UK (Saesneg yn unig)
  - ➢ Gallwch ddarllen am Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn yma: Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn | OHCHR (Saesneg yn unig)

## 5. A yw ymgorffori yn bwysig?

Mae yna nifer o resymau pam mae ymgorffori yn bwysig - dyma rai ohonynt:

- Mae hawliau dynol a gytunir gan y Deyrnas Unedig wedi'u hysgrifennu mewn cyfraith ryngwladol. Am y rheswm hwn, gellir ystyried nad ydynt mor berthnasol i bobl a chymunedau yma yng Nghymru. Mae'n hawdd eu diystyru pan fydd

Llywodraeth Cymru neu awdurdodau cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau neu'n cymryd camau sy'n effeithio ar ein bywydau. Drwy wneud ein hawliau economaidd-gymdeithasol, neu ein 'hawliau bob dydd', yn rhan o gyfraith Cymru, maent yn dod yn ofyniad cyfreithiol ac yn ystyriaeth angenrheidiol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

- Ail reswm pam mae ymgorffori yn bwysig yw ei fod yn helpu i gau'r 'bwlch o ran gweithredu'. Dyma'r bwlch rhwng yr hyn y mae llywodraethau yn cytuno ddylai fod yn rhan o'n hawliau dynol, a'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol mewn gwirionedd (h.y. gweithredu). Drwy wneud hawliau economaidd-gymdeithasol yn rhan allweddol o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, mae'n llawer mwy tebygol y bydd profiad pobl yn adlewyrchu'r gwarantau sylfaenol a ddarperir gan yr 'hawliau bob dydd' hyn mewn meysydd fel tai, iechyd a gofal cymdeithasol, ac addysg.

    - Am ragor o wybodaeth am gau'r bwlch o ran gweithredu gweler cwestiynau 11, 12, 15 ac 16.

- Byddai gwneud hawliau economaidd-gymdeithasol yn rhan o gyfraith Cymru yn golygu y gallai'r llysoedd sicrhau bod llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yn gweithredu'n briodol i roi'r gwasanaethau cyhoeddus sydd eu hangen ar unigolion i fyw bywyd urddasol, i gefnogi eu llesiant ac i ffynnu.

- Byddai gwneud hawliau economaidd-gymdeithasol yn rhan o gyfraith Cymru o fudd i bobl Cymru nawr, ac yn y dyfodol hefyd. Ni ellir gwarantu y bydd llywodraethau neu awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol yn gweithredu yn unol ag amcanion hawliau dynol. Byddai gwneud hawliau economaidd-gymdeithasol yn rhan o'n cyfraith yng Nghymru yn eu diogelu yn y dyfodol, gan alluogi cenedlaethau'r dyfodol i herio penderfyniadau a chamau gweithredu nad ydynt yn cydymffurfio â'u hawliau 'bob dydd'.

    - Gallwch ddarllen mwy am bwysigrwydd ymgorffori yma: Briff Sefydliad Bevan ar ymgorffori (Saesneg yn unig)

**6. A yw'n ofynnol yn gyfreithiol i Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru ymgorffori hawliau dynol?**

Yn anffodus, na. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn rhydd i benderfynu a ddylid ymgorffori hawliau dynol yng nghyfraith y DU neu yng nghyfraith Cymru.

Fodd bynnag, mae canllawiau gan y Cenhedloedd Unedig ar yr hyn y dylai llywodraethau ei wneud i weithredu hawliau dynol mewn ffordd briodol yn eithaf clir bod ymgorffori yn gam allweddol ar gyfer gweithredu hawliau dynol, gan gynnwys hawliau economaidd-gymdeithasol.

- ➢ I weld enghraifft o ganllawiau'r Cenhedloedd Unedig, gweler: General Comment No. 9: The domestic application of the Covenant / Refworld

Er gwaethaf hyn, ac er bod y DU wedi cytuno i lawer o gytuniadau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig, mae llywodraethau olynol y DU wedi gwrthod gwneud hawliau dynol rhyngwladol yn rhan o gyfraith y DU. Mae hyn yn golygu nad yw llawer o bobl a chymunedau yn y DU yn profi manteision llawn eu hawliau economaidd-gymdeithasol.

- ➢ Am ragor o wybodaeth am weithredu, gweler cwestiynau 11, 12, 15 ac 16.

## 7. Onid yw ymgorffori hawliau economaidd-gymdeithasol yn rhywbeth y dylem ei adael i lywodraeth y DU?

Llywodraeth flaenorol yn y DU a gyflwynodd ***Deddf Hawliau Dynol 1998*** er mwyn ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Fodd bynnag, mae'r Confensiwn Ewropeaidd yn ymwneud â hawliau sifil a gwleidyddol, nid hawliau economaidd-gymdeithasol (gweler cwestiwn 3).

Ers Deddf 1998, mae llywodraethau olynol y DU wedi gwrthod ymgorffori hawliau economaidd-gymdeithasol yng nghyfraith y DU. Mae hyn yn golygu, er mwyn sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu profi budd llawn hawliau economaidd-gymdeithasol, sef eu 'hawliau bob dydd', mater i Lywodraeth Cymru yw cymryd camau i'w gwneud yn rhan o gyfraith Cymru.

Yn wir, mae Llywodraeth bresennol Cymru wedi cytuno i wneud rhai hawliau dynol economaidd-gymdeithasol yn rhan o gyfraith Cymru. Mae'r rhain yn hawliau sydd wedi'u hysgrifennu yn:

- Y Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau.
- Y Confensiwn ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod.

- ➢ Am ddolenni i wybodaeth am y cytuniadau hyn: Rhyngwladol | Comisiwn Hawliau Dynol Yr Alban (Saesneg yn unig)
- ➢ Gallwch ddarllen y Rhaglen Lywodraethu lle mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ymgorffori'r cytuniadau hyn yma (tudalen 14): Llywodraeth Cymru - Rhaglen Lywodraethu - Diweddariad

## 8. A allwn ni wneud hawliau economaidd-gymdeithasol yn rhan o gyfraith Cymru?

Yr ateb syml yw gallwn. Yn 2011, aeth y Senedd (Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel ydoedd ar y pryd) ati i wneud y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn yn rhan o gyfraith Cymru. Mae'r Confensiwn hwn yn cynnwys hawliau economaidd-gymdeithasol.

- ➢ Gallwch ddysgu mwy am y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn a Chyfraith Cymru yma: Hawliau plant yng Nghymru | LLYW.CYMRU

Mae deddfwriaeth y DU sy'n rhoi pwerau i'r Senedd i lunio deddfau yng Nghymru yn glir ynghylch y ffaith bod gan y Senedd y pŵer i basio deddfau i weithredu hawliau dynol (y cyfeirir atynt fel arsylwi a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol y DU).

Mae'r cymal cyfreithiol perthnasol i'w gael yn ***Neddf Llywodraeth Cymru 2006***, yn Atodlen 7A paragraff 10.

- Gallwch ddod o hyd i'r ddeddfwriaeth yma: Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Er mwyn i'r Senedd allu pasio deddf i ymgorffori hawliau economaidd-gymdeithasol yng Nghymru, byddai angen i Lywodraeth Cymru baratoi Bil (neu gyfraith ddrafft) yn cyfeirio at hawliau perthnasol a gofyn i'r Senedd ddefnyddio ei phŵer i'w wneud yn rhan o gyfraith Cymru.

- Gallwch ddysgu sut mae deddfau'n cael eu gwneud yng Nghymru yma: Deddfu yng Nghymru | Cyfraith Cymru

## 9. A oes unrhyw gyfyngiadau ar ba hawliau economaidd-gymdeithasol y gall y Senedd eu gwneud yn rhan o gyfraith Cymru?

Oes, mae yna gyfyngiadau. Y rheswm am hyn yw bod y pŵer i lunio deddfau i Gymru yn cael ei rannu rhwng senedd y DU a'r Senedd, ac mae'r cyfrifoldeb dros bolisi yn cael ei rannu rhwng llywodraeth y DU a llywodraeth Cymru. Cyfeirir at hyn fel model datganoli 'cadw pwerau' i Gymru.

- Gallwch ddarllen mwy am y model datganoli cadw pwerau yma: Y Model Cadw Pwerau

Pan fydd y Senedd a Llywodraeth Cymru yn arfer eu pwerau i wneud cyfraith a pholisi i Gymru, maen nhw'n cyflawni 'swyddogaethau datganoledig'.

Mae'r model 'cadw pwerau' yn atal y Senedd rhag ymgorffori hawliau economaidd-gymdeithasol yng nghyfraith Cymru os yw'r hawliau hynny'n cyfeirio at feysydd cyfraith neu bolisi sy'n gyfrifoldeb i senedd y DU neu lywodraeth y DU. Gelwir y meysydd cyfrifoldeb hyn yn 'gymwyseddau a gedwir yn ôl'.

Byddai'n cymryd gormod o le i drafod yr holl feysydd lle mae gan senedd y DU a llywodraeth y DU gymwyseddau a gedwir yn ôl sy'n effeithio ar hawliau economaidd-gymdeithasol ('bob dydd'). Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys: budd-daliadau lles, a hawliau cyflogaeth; ac felly, ni all y Senedd basio deddf a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru neu awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru weithredu yn unol â hawliau economaidd-gymdeithasol yn y meysydd hyn.

Er gwaethaf rhai cyfyngiadau ar allu'r Senedd i wneud hawliau economaidd-gymdeithasol yn rhan o gyfraith Cymru, mae ganddi bŵer i ymgorffori nifer o hawliau sy'n berthnasol i swyddogaethau datganoledig, mae'r rhain yn cynnwys: tai, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.

**10. Pa gamau rydym yn eu cymryd yng Nghymru i wneud hawliau economaidd-gymdeithasol yn rhan o gyfraith Cymru?**

Fel y nodwyd ar ddechrau'r ddogfen friffio hon, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu gweithgor i archwilio sut y gallwn wneud hawliau economaidd-gymdeithasol yn rhan o gyfraith Cymru. Gan y byddai unrhyw gyfraith yn cael ei chyflwyno drwy ddeddfwriaeth Cymru, enw'r grŵp hwn yw'r 'Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol'. Mae'n cael ei arwain gan gymdeithas sifil (sy'n golygu sefydliadau nad ydynt yn rhan o'r llywodraeth).

Nid yw'r gweithgor wedi gorffen ei waith eto. Ar hyn o bryd, mae'n archwilio sut i sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth i wneud hawliau economaidd-gymdeithasol yn rhan o gyfraith Cymru fel eu bod yn gymwys i swyddogaethau datganoledig yn unig (gweler cwestiynau 8 a 9).

- Gallwch ddarllen am waith y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol yma: Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol ar Hawliau Dynol | LLYW.CYMRU

**11. Rydym yn clywed llawer am yr angen i 'weithredu' hawliau dynol. A oes gwahaniaeth rhwng ymgorffori a gweithredu?**

Fel y nodwyd yng nghwestiwn 6, mae canllawiau gan y Cenhedloedd Unedig yn dweud bod ymgorffori yn allweddol i weithredu hawliau dynol. Mae angen deall yn llawn nad yw ymgorffori a gweithredu yn bethau gwahanol. Ymgorffori yw gweithredu ac mae'n allweddol i roi hawliau economaidd-gymdeithasol ar waith yn effeithiol.

Mae'r DU wedi cytuno i lawer o gytuniadau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig. Golyga hyn y dylai pob llywodraeth ac awdurdod cyhoeddus yn y DU gymryd camau i weithredu'r hawliau sydd wedi'u cynnwys ynddynt. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol sydd wedi'i ysgrifennu ym mhob cytuniad hawliau dynol.

Am enghraifft o'r gofyniad cyfreithiol i weithredu hawliau dynol gweler y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, erthygl 2.

- Gallwch ddod o hyd i'r Cyfamod yma: Rhyngwladol | Comisiwn Hawliau Dynol Yr Alban (Saesneg yn unig)

Yng Nghymru, dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus ddefnyddio'r pwerau a'r adnoddau sydd ar gael iddynt er mwyn sicrhau bod pobl yn profi manteision hawliau economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau bob dydd.

Fel y nodwyd yng nghwestiwn 9, er mwyn gweithredu hawliau economaidd-gymdeithasol yn briodol, dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i'w hymgorffori yng nghyfraith Cymru. Fel y trafodwyd yng nghwestiynau 8 a 9, gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno Bil drafft (deddfwriaeth ddrafft) er mwyn gwneud hawliau economaidd-gymdeithasol yn rhan o gyfraith Cymru.

**12. A ddylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar weithredu hawliau economaidd-gymdeithasol yn hytrach na'u hymgorffori?**

Fel y nodir yn glir yng nghwestiwn 11, mae'n anghywir sôn am ymgorffori a gweithredu fel pe baent yn ddau beth gwahanol. Mae ymgorffori yn gam allweddol sy'n cyfrannu at weithredu hawliau economaidd-gymdeithasol yn briodol, mae'n rhan annatod o weithredu.

Fodd bynnag, nid yw ymgorffori ynddo'i hun yn ddigonol i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn elwa ar eu hawliau economaidd-gymdeithasol. Mae'n bwysig cydnabod, pan fyddwn yn siarad am weithredu hawliau dynol, ein bod yn cyfeirio at ystod ac amrywiaeth o gamau gweithredu.

Mae canllawiau gan y Cenhedloedd Unedig yn awgrymu llawer o gamau y gallai llywodraethau eu cymryd i weithredu hawliau dynol. Mae'r canllawiau hyn wedi'u nodi mewn dogfennau a elwir yn 'General Comments'.

- Gallwch ddarganfod mwy am y ddogfen yma: General Comments | OHCHR

Mae'r camau a argymhellir yn y canllawiau yn cynnwys ymgorffori. Maent hefyd yn cynnwys, er enghraifft:

- Cyllidebu hawliau dynol.
- Asesiad o'r effaith ar hawliau dynol.
- Hyfforddiant staff ar hawliau dynol.
- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o hawliau dynol.
- Cefnogi a gweithio gyda chymdeithas sifil.
- Cymryd camau i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn targedau hawliau dynol.

Yr hyn sy'n amlwg o'r canllawiau yw na fydd unrhyw rai o'r camau hyn, ar eu pennau eu hunain, yn ddigonol i wireddu hawliau economaidd-gymdeithasol yn llawn.

Mater i lywodraethau ac awdurdodau cyhoeddus yw mabwysiadu amrywiaeth o gamau er mwyn gweithredu hawliau economaidd-gymdeithasol.

Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn darparu'r canllawiau mwyaf cynhwysfawr ar weithredu, gan gyfeirio at y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn. Fodd bynnag, gellir cymhwyso llawer o'r canllawiau hyn yn gyffredinol i hawliau dynol a hawliau economaidd-gymdeithasol.

- Gallwch ddarllen ganllawiau'r Pwyllgor yma: General Comments (gweler sylw cyffredinol rhif 5).

**13. Ond oni allwn ni hyrwyddo hawliau economaidd-gymdeithasol drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010?**

Mae ***Deddf Cydraddoldeb 2010*** yn darparu nifer o amddiffyniadau rhag gwahaniaethu niweidiol sy'n effeithio ar bobl ag un neu ragor o 'nodweddion gwarchodedig'. Mae'r nodweddion gwarchodedig hyn yn cyfeirio at: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae Deddf 2010 yn sefydlu nifer o amcanion er mwyn i lywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus hyrwyddo cydraddoldeb hefyd. Yng Nghymru, mae'r amcanion hyn yn cynnwys yr angen i leihau anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol: 'dyletswydd economaidd-gymdeithasol'.

- Gallwch ddarllen am ***Ddeddf Cydraddoldeb 2010*** yma: Deddf Cydraddoldeb 2010 | EHRC
- Gallwch ddarllen am gamau gweithredu ar gydraddoldeb yng Nghymru yma: Cydraddoldeb a hawliau dynol | Pwnc | LLYW.CYMRU
- Gallwch ddarllen am y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru yma: Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol: trosolwg | LLYW.CYMRU

Nid oes amheuaeth y gall ***Deddf Cydraddoldeb 2010*** helpu i fynd i'r afael â gwahaniaethu sy'n atal pobl rhag elwa ar eu hawliau economaidd-gymdeithasol mewn meysydd fel cyflogaeth, tai, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cydraddoldeb a hawliau economaidd-gymdeithasol yn sicr yn ategu ei gilydd. Fodd bynnag, mae yna wahaniaethau.

Mae Deddf 2010 yn sefydlu amcanion cyffredinol ar gyfer Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus. Ar y llaw arall, mae hawliau economaidd-gymdeithasol yn sefydlu amcanion pendant sy'n cyfeirio at ddarpariaeth a safonau ansawdd mewn meysydd fel tai, addysg, gofal cymdeithasol a gofal iechyd.

Nid yw Deddf 2010 yn ei gwneud yn ofynnol cael polisïau blaengar sy'n gwella safonau gwasanaethau cyhoeddus. Gellir cael cydraddoldeb lle mae pawb yn derbyn yr un lefel wael o wasanaethau cyhoeddus, neu ddim gwasanaethau o gwbl. Mae hawliau economaidd-gymdeithasol yn wahanol gan eu bod wedi'u hysgrifennu mewn ffyrdd sy'n mynnu o leiaf lefel ofynnol o ddarpariaeth a safonau cyflawni blaengar, ac yn aml maent yn cynnwys datganiadau manwl ar yr hyn y dylid ei ddarparu i unigolion.

Am enghreifftiau o gytuniadau sy'n cynnwys hawliau economaidd-gymdeithasol sy'n sefydlu safonau ac yn rhoi manylion am yr hyn y dylid ei ddarparu, gweler:

- Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, erthygl 11 ar safon byw, ac erthygl 12 ar iechyd.
  - Gallwch ddarllen y cytuniad yma: ICESCR (Saesneg yn unig)

- Y Confensiwn ar Hawliau Pobl Anabl, erthygl 28 ar safon byw a diogelu cymdeithasol.
  - Gallwch ddarllen y cytuniad yma: Y Confensiwn ar Hawliau Pobl Anabl (Saesneg yn unig)

- Y Confensiwn ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod, erthygl 10 ar addysg.
    - Gallwch ddarllen y cytuniad yma: Y Confensiwn ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod (Saesneg yn unig)

Gwahaniaeth arall yw bod ***Deddf Cydraddoldeb 2010*** yn mynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn pobl â nodweddion gwarchodedig sy'n eu hatal rhag cael mynediad at nwyddau a gwasanaethau. Mae hawliau economaidd-gymdeithasol yn gymwys yn ehangach ac yn hyrwyddo hawliau i wasanaethau cyhoeddus gweddus i bawb, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig.

Yn olaf, mae amcanion hawliau economaidd-gymdeithasol yn fwy 'rhagweithiol' nag amcanion cydraddoldeb. Mae hyn oherwydd eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus fynd ati i wneud darpariaeth a defnyddio adnoddau sydd ar gael yn effeithlon i wella ansawdd gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r gwahaniaethau hyn yn golygu bod angen hawliau economaidd-gymdeithasol arnom fel rhan o gyfraith Cymru er mwyn gwarantu lefel gweddus o wasanaethau cyhoeddus i bawb yng Nghymru.

- I wybod mwy am y berthynas rhwng hawliau dynol a chydraddoldeb: Briff 3 Sefydliad Bevan (Saesneg yn unig)

### 14. Beth am ein Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. A allwn ni hyrwyddo hawliau economaidd-gymdeithasol drwy'r ddeddfwriaeth hon?

Mae'r Ddeddf Llesiant yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru 'gyfrannu cymaint â phosibl' at y gwaith o gyflawni saith 'nod llesiant', sef: Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae cysylltiadau rhwng y nodau llesiant a hawliau economaidd-gymdeithasol. Er enghraifft, rhwng y nod o Gymru iachach a'r hawl economaidd-gymdeithasol i'r safon iechyd uchaf y gellir ei chyflawni, e.e. erthygl 12 o'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol.

- Gallwch ddarllen y Cyfamod (y cytuniad) yma: ICESCR (Saesneg yn unig)

Mae'r nodau llesiant yn eang a chyffredinol. Maent yn rhoi llawer o ddisgresiwn i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus ynghylch sut i ddehongli llesiant.

Er bod hawliau economaidd-gymdeithasol yn cyfeirio at yr hanfodion sylfaenol sy'n hollbwysig i lesiant unigolion, nid oes sicrwydd y byddant yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru nac awdurdodau cyhoeddus wrth iddynt gynllunio sut i gyflawni'r nodau llesiant. Dyna pam mae angen hawliau economaidd-gymdeithasol arnom fel rhan o gyfraith Cymru.

- Am ragor o wybodaeth am y berthynas rhwng hawliau dynol a llesiant: Briff 3 Sefydliad Bevan (Saesneg yn unig)

## 15. Pa wahaniaeth fyddai ymgorffori hawliau economaidd-gymdeithasol yn ei wneud i'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cynllunio?

Byddai'r hawliau sy'n cael eu hystyried i'w hymgorffori yng Nghymru yn golygu y byddai gofyn rhoi sylw gofalus i'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cynllunio er mwyn diwallu'r angen mewn meysydd allweddol e.e. addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, tai, yr amgylchedd (gweler cwestiwn 7)

Byddai hawliau economaidd-gymdeithasol fel rhan o gyfraith Cymru yn cyflwyno fframwaith o amcanion a safonau (gan gynnwys safonau gofynnol) i gyfeirio'r gwaith cynllunio tuag at ddiwallu'r angen mwyaf, ac i sicrhau y gwneir defnydd effeithlon o adnoddau er mwyn mynd i'r afael ag anghenion y rhai mwyaf agored i niwed a difreintiedig.

Fel y nodwyd yng nghwestiynau 13 a 14, mae hawliau economaidd-gymdeithasol yn gosod targedau pendant ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, a fyddai'n berthnasol i gynllunio'r holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru lle mae llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yn cyflawni swyddogaethau datganoledig (gweler cwestiwn 13 am ystyr 'swyddogaethau datganoledig').

Mae tystiolaeth ar effaith ymgorffori yn dangos yn glir ei fod yn golygu bod hawliau dynol perthnasol yn cael mwy o sylw mewn gwaith cynllunio polisi.

- Am gyflwyniad i'r dystiolaeth, a chyfeiriadau at ragor o ddeunydd darllen, gweler: Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru | LLYW.CYMRU (gweler yr adroddiad llawn ym mharagraffau 5.5 a 5.6)

## 16. A fyddai ymgorffori yn effeithio ar fywydau pobl?

Fel y nodwyd yng nghwestiwn 15, byddai hawliau economaidd-gymdeithasol yng nghyfraith Cymru yn cyflwyno fframwaith o amcanion a safonau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig i gynllunio'n benodol er mwyn diwallu'r angen mwyaf. Ond mae yna lawer o ffactorau sy'n dylanwadu ar sut mae pobl yn profi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn gwirionedd - nid dim ond a yw hawliau economaidd-gymdeithasol yn rhan o gyfraith Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys: faint o gyllid sydd ar gael i'r llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus, lefel yr angen ymysg unigolion ac yn y gymuned, pa mor effeithlon mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu trefnu a'u cydlynu, ac effaith digwyddiadau annisgwyl fel pandemig COVID 19.

- Mae trafodaeth ar rai o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yma: O dan bwysau: sut mae gwasanaethau llywodraeth leol yn newid?

Nid yw ymgorffori ynddo'i hun yn un ateb syml a fydd yn gwarantu bod pobl yn elwa ar eu hawliau economaidd-gymdeithasol. Ond byddai gwneud hawliau economaidd-gymdeithasol yn rhan o gyfraith Cymru yn dylanwadu ar y gwaith o gynllunio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, gan ei gwneud yn fwy tebygol y bydd y ddarpariaeth yn canolbwyntio ar sicrhau bod unigolion yn cael budd o hawliau 'bob dydd' (gweler cwestiwn 15).

Fodd bynnag, yn ymarferol, bydd profiad gwirioneddol pobl yn dibynnu ar sut mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yn defnyddio'r holl bwerau ac adnoddau sydd ar gael iddynt i weithredu hawliau economaidd-gymdeithasol (gweler cwestiwn 12). Byddai mabwysiadu Dull Hawliau Dynol o gymorth mawr i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus weithredu hawliau economaidd-gymdeithasol.

**17. Beth yw Dull Hawliau Dynol?**

Mae Dull Hawliau Dynol yn gofyn am ddull cydlynol ac ymroddedig o hyrwyddo hawliau economaidd-gymdeithasol trwy gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn golygu rhoi hawliau economaidd-gymdeithasol wrth wraidd yr holl gynllunio a darparu. Yng Nghymru byddai hyn yn dechrau gyda deddfwriaeth i ddiogelu a hyrwyddo hawliau economaidd-gymdeithasol yng nghyfraith Cymru.

Mae camau eraill i gefnogi Dull Hawliau Dynol yn cynnwys:

- Dyfeisio cynlluniau gweithredu gyda thargedau addas ar gyfer cyflawni a benderfynir drwy gyfeirio at hawliau economaidd-gymdeithasol.
- Darparu canllawiau a hyfforddiant i weithwyr allweddol ar sut i hyrwyddo hawliau economaidd-gymdeithasol trwy ddarparu gwasanaethau.
- Dyrannu adnoddau digonol i gefnogi'r gwaith o ddarparu.
- Mae sicrhau cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu yn egwyddorion arweiniol.
- Grymuso pobl a chymunedau i ddeall eu hawliau ac elwa arnynt.
- Sefydlu prosesau i alluogi pobl a chymunedau i gymryd rhan yn y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cynllunio a'u darparu.
- Monitro cynnydd a chanlyniadau yn erbyn targedau hawliau economaidd-gymdeithasol.
- Bod yn gwbl atebol i bobl a chymunedau am wasanaethau cyhoeddus.

  - ➢ I wybod mwy am Ddull Hawliau Dynol: YHD
  - ➢ I wybod mwy am Ddull Hawliau Dynol gyda ffocws ar brofiad awdurdod lleol yng Nghymru: Dull Gweithredu ar Hawliau Dynol - Abertawe:

Er y byddai ymgorffori a Dull Hawliau Dynol yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd hawliau economaidd-gymdeithasol yn dylanwadu ar ganlyniadau, bydd llawer yn dibynnu ar barodrwydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus i gymryd camau ychwanegol i hyrwyddo hawliau yn ymarferol.

Mae ymchwil wedi cadarnhau os yw hawliau economaidd-gymdeithasol yn cael eu cydnabod gan y gyfraith, gall hyn arwain at well canlyniadau o ran polisi a chyflawni.

- Am gyflwyniad i'r dystiolaeth, a chyfeiriadau at ragor o ddeunydd darllen, gweler: [Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru | LLYW.CYMRU] (gweler yr adroddiad llawn ym mharagraffau 5.5 a 5.6).

Un maes allweddol lle gall ymgorffori hawliau economaidd-gymdeithasol gyfrannu at well gwasanaethau cyhoeddus yw drwy wneud llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus yn fwy atebol. Mae hyn yn cael ei drafod yn y cwestiwn nesaf.

**18. A fyddai ymgorffori hawliau economaidd-gymdeithasol yn gwneud llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yn fwy atebol?**

Ar hyn o bryd mae yna 'fwlch atebolrwydd' o ran cydymffurfio â hawliau economaidd-gymdeithasol. Mae dyletswyddau cyfreithiol sydd â rhywfaint o gysylltiad â pholisi economaidd-gymdeithasol yn eithaf amwys, ac ni all y llysoedd orfodi cydymffurfiaeth â hawliau economaidd-gymdeithasol (gweler cwestiynau 13 ac 14).

Byddai ymgorffori hawliau economaidd-gymdeithasol yng Nghymru yn uniongyrchol yn pontio'r bwlch atebolrwydd (gweler cwestiwn 4 ar ymgorffori uniongyrchol). Byddai'n galluogi llys i adolygu penderfyniadau a chamau gweithredu a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus i asesu sut mae'r rhain yn effeithio ar unigolion, ac a ydynt wedi gwneud digon i gydymffurfio â hawliau economaidd-gymdeithasol.

Byddai gorfodi gan lys yn fecanwaith cryf ar gyfer sicrhau bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yn gwbl atebol am benderfyniadau a chamau gweithredu a gymerant sy'n effeithio ar hawliau economaidd-gymdeithasol pobl yng Nghymru. Mae hyn yn rhywbeth a fyddai'n helpu i sicrhau safon uchel o benderfyniadau a darpariaeth gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar hawliau. Ond nid gorfodi gan lys fyddai'r unig fecanwaith atebolrwydd a fyddai ar gael pe bai hawliau economaidd-gymdeithasol yn cael eu hymgorffori yng nghyfraith Cymru.

Mae opsiynau eraill ar gyfer cryfhau atebolrwydd o ganlyniad i ymgorffori yn cynnwys:

- Mecanweithiau cwynion. Gweithdrefnau anffurfiol yw'r rhain sy'n galluogi unigolyn i herio penderfyniad neu weithred gan lywodraeth neu awdurdod cyhoeddus. Byddai ymgorffori hawliau economaidd-gymdeithasol yng Nghymru yn galluogi unigolion i ddibynnu ar hawliau 'bob dydd' wrth wneud cwyn, gan gynnwys tynnu sylw at benderfyniadau neu weithredoedd sydd islaw'r safonau a sefydlir gan yr hawliau hynny.
- Rhoi mwy o bwerau i sefydliadau cenedlaethol fel comisiynwyr neu ombwdsmyn i ymchwilio a dwyn Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus i gyfrif am dorri hawliau economaidd-gymdeithasol.

- Rhoi mwy o opsiynau i'r Senedd graffu ar gyfreithlondeb polisi Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar rwymedigaethau a safonau a sefydlir gan hawliau economaidd-gymdeithasol.

  - Am ragor o wybodaeth am sut gall ymgorffori hawliau economaidd-gymdeithasol wella atebolrwydd: Modelau ymgorffori (Saesneg yn unig), gweler e.e. pennod 4.
  - Gallwch ddarllen am sut mae ymgorffori wedi cyfrannu at ragor o atebolrwydd dros hawliau plant yng Nghymru yma: Effaith Integreiddio Cyfreithiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru

**19. A fyddai ymgorffori yn fforddiadwy yng Nghymru: a fydd angen adnoddau ychwanegol?**

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn gostus. Mae tai gweddus, addysg, gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn gostus. Mae'r gwasanaethau hyn eisoes yn gostus, ond yn yr un modd mae arian eisoes ar gael i'w wario ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, h.y. yng nghyllideb Cymru.

- Gallwch ddarllen am yr arian a ddyrennir i Gymru i'w wario yng nghyllideb Cymru yma: Sut mae llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru yn cael ei hariannu? | Cyfraith Cymru

Byddai sicrhau bod hawliau economaidd-gymdeithasol yn rhan o gyfraith Cymru yn golygu goblygiadau i'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (gweler cwestiynau 15 a 16). I ddechrau, byddai hyn yn golygu bod adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yn cael eu blaenoriaethu i ddiwallu anghenion mewn meysydd allweddol e.e. addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, tai, yr amgylchedd, ac i sicrhau y gwneir defnydd effeithlon o adnoddau i fynd i'r afael ag anghenion y rhai mwyaf agored i niwed ac o dan anfantais.

Nid yw hyn yn ymwneud â gwariant ychwanegol, ond yn hytrach mae'n ymwneud â sefydlu fframwaith er mwyn sicrhau a chadarnhau'r defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o adnoddau presennol cyfyngedig i ddiwallu'r angen mwyaf dybryd. Mae'n werth nodi bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus, mewn sawl maes o wariant cyhoeddus, yn blaenoriaethu gwariant i ddiwallu'r angen mwyaf.

- Mae trafodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu ei chyllideb yma: Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwario ei chyllideb yn 2024-25?
- Gellir dod o hyd i wybodaeth am flaenoriaethau polisi a gwariant gan Lywodraeth Cymru ar wefan Llywodraeth Cymru: Hafan | LLYW.CYMRU

Yn y tymor hwy, byddai'n ffôl gwadu na fyddai gwneud hawliau economaidd-gymdeithasol yn rhan o gyfraith Cymru yn awgrymu bod angen adnoddau ychwanegol. Mae hyn oherwydd bod hawliau economaidd-gymdeithasol yn

uchelgeisiol, sy'n golygu eu bod yn hyrwyddo mwy o argaeledd safonau uwch mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae i hyn oblygiadau o ran adnoddau.

Fodd bynnag, sylfaen unrhyw broses o weithredu hawliau economaidd-gymdeithasol yw bod unrhyw welliant yn flaengar ac yn ddibynnol ar y ffaith bod adnoddau ar gael. Gwireddu cynyddol hawliau economaidd-gymdeithasol yw enw hyn.

Er y byddai gwneud hawliau economaidd-gymdeithasol yn rhan o gyfraith Cymru yn gofyn defnyddio adnoddau sydd ar gael yn effeithlon i hyrwyddo hawliau economaidd-gymdeithasol, ni fyddai gofyn i Lywodraeth Cymru nac awdurdodau cyhoeddus gyrraedd targedau sy'n amhosibl eu cyrraedd oherwydd cyfyngiadau o ran adnoddau.

- I ddysgu mwy am wireddu cynyddol: Gwireddu cynyddol - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Saesneg yn unig) (mae'r drafodaeth hon yn cyfeirio at hawliau plant, ond mae'r wybodaeth am wireddu cynyddol yn gymwys i bob hawl economaidd-gymdeithasol)
- Am ragor o wybodaeth am wireddu cynyddol, gan gynnwys rhagor o gyfeiriadau ac astudiaethau achos am y profiad mewn sawl gwlad, gweler: Modelau ymgorffori (Saesneg yn unig)
- Am drafodaeth fanylach a thechnegol ar wireddu cynyddol gweler: Gwireddu Cynyddol (Saesneg yn unig)

**20. Yn olaf, a oes cefnogaeth i ymgorffori yng Nghymru?**

Bu nifer o ymgyrchoedd yng Nghymru yn galw am ymgorffori hawliau dynol yng nghyfraith Cymru, gan gynnwys hawliau economaidd-gymdeithasol. Mae'r ymgyrchoedd hyn wedi cael eu harwain gan sefydliadau cymdeithas sifil sy'n cynrychioli gwahanol grwpiau yng nghymdeithas Cymru y mae eu hansawdd bywyd yn cael ei effeithio'n uniongyrchol gan eu gallu i gael mynediad at eu hawliau economaidd-gymdeithasol.

- Nodir yr ymgyrchoedd hyn mewn blog ar wneud hawliau economaidd-gymdeithasol yn rhan o gyfraith Cymru: Diwrnod Hawliau Dynol 2024 - Prifysgol Abertawe

Mae'n wir hefyd bod ymchwil gynhwysfawr yn 2021 wedi cael tystiolaeth o wahanol ffynonellau a gadarnhaodd awydd cryf ymhlith sefydliadau cymdeithas sifil i ymgorffori hawliau dynol yng nghyfraith Cymru.

- Gellir dod o hyd i'r adroddiad ymchwil llawn yma: Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru | LLYW.CYMRU Trafodir cefnogaeth i ymgorffori ym mhennod 5.

**Dyddiad y ddogfen friffio: Rhagfyr 2024**